# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Tachwedd 9fed am 8.00 o’r gloch yn Neuadd Parc.

Presennol: Geraint Jones, Jean Roberts, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Rhys Jones a’r Cyng. Elwyn Edwards a’r clerc.
Ymddiheuriadau: Arwel Davies.

**Gan nad oedd y cadeirydd na’r is-gadeirydd yn bresennol cytunodd Geraint Jones i gadeirio’r cyfarfod.**

i) Darllen a chadarnhau’r Cofnodion (Medi 27ain 2022) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant **- Dim**

iii) Materion yn codi o’r Cofnodion.
a) Ymateb i’r cwynion o’r cyfarfod diwethaf.
b) Cynllun Bioamrywiaeth 2022-25 - **trafodwyd syniadau ar gyfer datblygu’r cynllun. Cytunwyd i geisio cydweithio gyda’r ysgol, ysgol feithrin, CFFI a mudiadau lleol eraill i wireddu prosiectau bocsys adar, plannu blodau. Cytunwyd ar gyllideb o £50 y flwyddyn gan edrych am ffynonellau eraill i ddarparu offer.**

### iv) Gohebiaeth

a) Amrywiol.
i) Cyngor Cymuned Llandderfel - Fferm Wynt Gaerwen.
ii) Cyngor Gwynedd - Adran Gwarchod y Cyhoedd - Ffliw Adar a Cheidwaid Dofednod Lleol
iii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad blynyddol drafft.
iv) Comisiwn Ffiniau i Gymru - cynigion diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru.
v) GIG Cymru - Nodyn briffio1, cynnig datblygu gwasanaeth
vi) Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad Etholiadau.
vii) Dwr Cymru - Diwrnodau Agored.

### v) Ceisiadau Cynllunio

**Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.**

**vi) Materion Ariannol**
a) Ceisiadau ariannol - Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin 2023. **Cytunwyd i drafod y cais gyda gweddill o’r ceisiadau ym mis Mawrth.**

**vii) Materion lleol.**
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i’r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH RHAGFYR 13EG YN NEUADD PARC.**